funded by

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Meh/Gorff 2008

Biniau Newydd Oldford

Ydych chi wedi sylwi ar y biniau newydd ar Ystâd Oldford?

Mae pump o finiau sbwriel newydd o gwmpas yr ystâd erbyn hyn. Maent yn y lleoliadau canlynol: Sgwâr Heulwen, Oldford Rise, Oldford Close, un ger y man chwarae a'r llall ger y Cae Scansis.

Mae'r biniau hyn yn addas i gael gwared â baw cŵn wrth i chi gerdded gyda'r ci.

Mae trigolion wedi bod yn gofyn am y biniau hyn ers talwm; diolch i Gymunedau yn Gyntaf Oldford a Chyngor Sir Powys, maent ar gael yn awr, a'r gobaith yw y byddant yn helpu cadw Oldford yn daclus. Gwyliwch allan am flychau gyda chyflenwad o fagiau baw cŵn ynddynt i'ch helpu os byddwch allan gyda'ch ci. Diolch ymlaen llaw am gadw'r ystâd yn lân ac yn daclus!

Dyma luniau o 3 o'r biniau sydd ar yr ystâd, gallwch ddyfalu ble maen nhw?

Y Diweddaraf ar y Cynllun Gweithredu Cymunedol…

Mae gwahoddiadau i ymuno â phob un o'r grwpiau wedi eu hanfon allan at nifer o fudiadau ac unigolion sydd â'r potensial i gyfrannu at y cyfarfodydd ac i helpu cyflawni'r cynllun gweithredu. Bydd hyn ond yn digwydd trwy gyfraniad gan drigolion lleol, felly cysylltwch â ni ar 556648 am fwy o wybodaeth.

Mae'r **Is-grŵp ar Droseddu a Diogelwch Cymunedol** wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o greu Cynllun Cymdogaeth.

Mae'r **Is-grŵp Amgylcheddol** wedi bod yn gweithio ar lansio cystadleuaeth am Yr Ardd Daclusaf, fydd gyda lwc, yn annog pobl i dacluso a bywiogi eu gerddi.

Mae nifer o bethau positif yn digwydd o fewn yr is-grwpiau, a byddem wrth ein bodd pe gallech chi fod yn rhan o'r gwaith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymunedol Oldford hefyd.

Yn y rhifyn hwn:

Biniau Newydd!	*1*
Cystadleuaeth ar Oldford'	*2*
Oldford Arlein	*3*
Diwrnod Tacluso Oldford	*4*
Bysedd gwyrdd	*5*
Cyngor ariannol	*6*

If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

LLAIS OLDFORD

Ddechrau mis Mehefin, bydd Cystadlaethau Oldford yn cael eu lansio. Dyma'ch cyfle i ddangos eich gallu creadigol. Bydd hefyd yn gyfle inni ychwanegu ychydig o liw at Ystâd Oldford!

Does dim rhaid i chi fod yn arddwr o fri, mae categorïau gwahanol ar bob lefel:

*

Cwestiwn: A yw baw cŵn yn berygl i'r iechyd?

Ateb:

Mae baw cŵn a chathod yn gallu cynnwys wyau Toxocara, sef llyngyr. Gall yr wyau hyn fyw mewn pridd am nifer o flynyddoedd. Os bydd bod dynol yn eu llyncu neu eu hanadlu, maen nhw'n gallu achosi problemau gyda'r llygaid, yr iau, yr ymennydd a'r ysgyfaint, megis asthma, hepatitis ac epilepsi.

Plant sy'n chwarae mewn lleoedd chwarae lle ceir baw sydd â'r risg mwyaf.